

PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Mae gan UNSAIN Cymru dri maes allweddol y credwn y dylid eu blaenoriaethu yn ystod tymor nesaf y Senedd. Mae partneriaeth gymdeithasol yn un o'r meysydd hyn.

Rydym yn galw ar ymgeiswyr i fod yn Aelodau Senedd Cymru (ASC) i ymrwmo i egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a gweithio tuag at greu deddfwriaeth ar ffurf Deddf Partneriaeth Gymdeithasol yn ystod tymor nesaf y Senedd.

Beth yw Partneriaeth Gymdeithasol?

Mae partneriaeth gymdeithasol yn dwyn ynghyd y llywodraeth, cyflogwyr, ac undebau llafur mewn meysydd lle mae buddiannau a rennir - y nod yw cynllunio a gweithredu datrysiadau gwell trwy weithio ar y cyd.

Credwn mai partneriaeth gymdeithasol yw'r sylfaen ar gyfer gwaith teg yng Nghymru, a dyma'r unig ffordd effeithiol o hyrwyddo caffael nwyddau'n deg, cyflog byw go-iawn i bawb, atal anghyfiawnder contractau dim oriau, a sicrhau bod hawliau gweithwyr yn cael eu hamddiffyn yn wyneb Brexit.

Dywed Llywodraeth Cymru mai gwaith teg yw lle mae gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, eu clywed a'u cynrychioli; lle maent yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu.

Beth yw manteision partneriaeth gymdeithasol?

Mae **UNSAIN** yn credu bod pob gweithiwr yn haeddu llais pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu bywydau yn y gwaith. Trwy undebau llafur, mae partneriaeth gymdeithasol yn sicrhau bod gweithwyr yn cael lle wrth y bwrdd ac yn gallu trafod eu harferion yn y gweithle.

Mae tystiolaeth bod partneriaeth gymdeithasol yn hwyluso gwaith tecach a ffyrdd mwy cyfartal o weithio. Mae hyn o fudd sylweddol i'n cymdeithas yn ei chyfanrwydd - mae'n ffordd fwy agored o weithredu; mae'n creu gweithlu mwy gwydn ac ymatebol; ac mae'n well ar gyfer ein sefydlogrwydd cymdeithasol ac economaidd hir-dymor.

Pam mae UNSAIN yn galw am ddeddfwriaeth ar gyfer Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru?

Mae **UNSAIN** yn credu y byddai Deddf Partneriaeth Gymdeithasol yn gam pwysig tuag at sicrhau hawliau gweithwyr yng Nghymru. Byddai'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, gan hyrwyddo gwaith teg. Byddai hefyd yn gosod disgwyliad ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod egwyddorion gwaith teg yn cael eu gwreiddio mewn strategaethau caffael - bydd hyn o gymorth i sbarduno'r newid sydd ei angen yn y sector preifat ledled Cymru hefyd.

